# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD** Gwener, 24 Mawrth 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** G. Davies (Aelod o’r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod: 9.00 yb - 9.10 yb

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 24AIN IONAWR 2023**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 24ain Ionawr 2023 yn gofnod cywir.**

**3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.L.L.**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Dywedodd y Pen Swyddog Llywodraethu Ysgolion y gall yr holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddant yn eistedd a bydd eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros lywodraethwyr awdurdod lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gall Cynghorwyr Sirol enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgolion lle nad oes lle gwag ar hyn o bryd. Os bydd swydd llywodraethwr wedi'i ordanysgrifio, gall y Cyngor bennu pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol sy'n gorfod rhoi'r gorau i'r swydd.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| **Blaenau**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mrs D Fisher-Edwards |
| **Carwe-Gwynfryn-Ponthenri Federation**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Y Cynghorydd M. James |

| | |
|---|---|
| **Cwrt Henri, Ffairfach and Talley Federation**<br>(2 x lle gwag - 1 enwebiad) | Y Cynghorydd F. Walters |
| **Griffith Jones**<br>(1 x lle gwag o 1.4.23 - 1 enwebiad) | Mr. T. John |
| **Hendy**<br>(1 x lle gwag o 1.4.23 - 1 enwebiad) | Mrs. K. Taylor |
| **Old Road**<br>(2 x lle gwag - 2 enwebiad) | Y Cynghorydd A. Leyshon<br>Rev. G. Hays |
| **Parcyrhun**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mrs. E. Jones |
| **Peniel**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mr. W. Evans |
| **Pentip**<br>(2 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mr. W.G. Thomas |
| **Penygaer**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Y Cynghorydd R. James |
| **Pontyates**<br>(1 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mrs. L.M. Cave |
| **Teilo Sant**<br>(2 x lle gwag - 1 enwebiad) | Mr. E. Davies |

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**